



Cefnogi plant a theuluoedd sy'n dioddef oherwydd bod aelod o'r teulu wedi troseddu a/neu yn y carchar

Hyfforddiant i
weithwyr proffesiynol

Credwch
mewn plant
 Barnardo's
Cymru

Pam dilyn hyfforddiant am blant sy'n dioddef oherwydd bod ganddynt riant sydd wedi troseddu?

Amcangyfrifir bod **200,000 o blant bob blwyddyn** yn dioddef oherwydd bod ganddynt riant yn y carchar, ac mai plant a phobl ifanc sy'n gyfrifol am **10,000 o'r ymweliadau wythnosol** â'n carchardai cyhoeddus. Daw i'r amlwg fwyfwy mewn gwaith ymchwil yr effaith y gall rhiant wedi'i garcharu ei chael ar y plant hyn – canlyniadau gwaeth, stigma, ynysu, cyrhaeddiad addysgol gwael, iechyd a thrafferthion ariannol.

Bob blwyddyn, mae'r ffaith bod rhiant wedi'i garcharu yn effeithio ar fwy o blant na'r rheini sy'n derbyn gofal, ac amcangyfrifir y bydd tadau **7% o blant oed ysgol** wedi cael eu carcharu. Er gwaethaf y nifer sylweddol o deuluoedd mae hyn yn effeithio arnynt, bydd llawer o'r plant hyn yn parhau'n anweledig, ac ni fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu.



Ers 20 mlynedd a mwy, mewn carchardai a sefydliadau yn y gymuned, mae Barnardo's wedi cyfrannu at waith sy'n cefnogi plant troseddwy'r a'u teuluoedd. Yn yr amser hwnnw, rydym wedi datblygu cyfoeth o brofiad yn seiliedig ar arferion, ymchwil ac adnoddau i gefnogi gweithwyr proffesiynol. Mae Barnardo's hefyd yn cyflwyno **gwasanaeth i-HOP** cenedlaethol (www.i-hop.org.uk), sef canolfan wybodaeth genedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n casglu'r holl adnoddau, gwasanaethau, ymchwil a pholisïau sy'n ymwneud â phlant sy'n dioddef oherwydd bod ganddynt riant sydd wedi troseddu.

“Y pethau anoddaf yw bod yn rhaid i chi ddal ati i redeg y tŷ. Mae'n rhaid i chi ofalu am eich plant a bod yn annibynnol yn ariannol ac yna mae'n rhaid i chi roi cefnogaeth feddyliol i rywun arall, pan mae angen y gefnogaeth honno arnoch chi eich hun. Rydw i eisïau rhywbeth yn ôl er fy mwyn i, ond dydy hynny ddim yn bosib.”

Partner rhiant sydd yn y carchar

“Difyr a buddiol iawn – llawn gwybodaeth a hawdd ei ddeall – roedd y sleidiau a'r fideos yn ardderchog.”

Ymarferydd a fu'n bresennol mewn gweithdy

Hyfforddiant

Rydym yn darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ynghylch effaith rhiant yn troseddu ac yn cael ei garcharu, gan helpu gweithwyr proffesiynol i feithrin sgiliau a gwybodaeth am sut i gefnogi plant a theuluoedd.

- **Dedfrydau Cudd – Rhan 1 (Codi Ymwybyddiaeth), hanner diwrnod, rhwng 15 a 20 o gyfranogwyr – £250**

Datblygwyd yr hyfforddiant hwn yn wreiddiol gan Action for Prisoners' and Offenders' Families ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, teuluoedd a throseddwyr. Mae'r cwrs yn codi ymwybyddiaeth drwy ystyried effaith carcharu ar blant a theuluoedd, ac yn canolbwyntio ar sut y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion cymorth y rheini sy'n wynebu effaith hyn.

- **Dedfrydau Cudd a Mwy yng Ngharchar y Parc, diwrnod llawn, £40 y pen (yn cynnwys cinio)**

Mae cynnwys yr hyfforddiant hwn yn debyg i gynnwys hyfforddiant Dedfrydau Cudd – Rhan 1, ond mae'n rhoi cyfle i'r cyfranogwyr gael y profiad o ymweld â charchar. Byddant yn dod i ddeall sut brofiad yw ymweld â charchar i deuluoedd drwy fynd drwy'r broses ddiogelwch a gweld y neuadd ymweliadau. Cynhelir yr hyfforddiant yn yr adain i deuluoedd, a bydd staff y carchar a throseddwr yn dod i rywfaint o'r hyfforddiant i rannu eu profiadau.

- **Dedfrydau Cudd – Rhan 2 (Sgiliau Ymarferwyr), hanner diwrnod, rhwng 15 a 20 o gyfranogwyr – £250**

Mae'r hyfforddiant hwn yn addas i Ymarferwyr rheng flaen sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Mae'n rhoi arweiniad ar sut mae cefnogi plant a theuluoedd sy'n dioddef oherwydd bod rhiant wedi troseddu; sut mae ystyried eu hanghenion wrth gyflawni asesiadau a datblygu cynlluniau cefnogi sy'n manteisio ar yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r hyfforddiant hefyd yn darparu: gwybodaeth am sut mae gofyn cwestiynau anodd; sut mae helpu rhieni i siarad â'u plant; a chyngor ynghylch pwy y dylent gysylltu â nhw yn yr asiantaethau perthnasol.

- **Dedfrydau Cudd – Cyfunol (Rhan 1 a Rhan 2 gyda'i gilydd), diwrnod llawn, rhwng 15 a 20 o gyfranogwyr – £500**

Mae'r hyfforddiant hwn yn codi ymwybyddiaeth am deuluoedd sy'n dioddef oherwydd bod rhiant yn y carchar ac yn rhannu'r adnoddau y gall ymarferwyr eu defnyddio i gynnig cymorth i deuluoedd.

“Mae'n ddrwg gen i ddweud hyn, ond fel ymarferydd a rheolwr strategol, doeddwn i ddim yn gwybod llawer am yr effeithiau. Roeddwn wedi rhyfeddu wrth glywed y ffeithiau am nifer y plant sy'n dioddef oherwydd hyn.”

Ymarferydd a fu'n bresennol mewn gweithdy

“Roedd aelodau ein tîm yn meddwl bod yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol, yn fuddiol, wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i gyflwyno mewn ffordd a oedd yn hybu cydbwysedd da rhwng cymryd rhan a dysgu. Bydd hyn yn sicr yn ein helpu wrth i ni gynnig ein gwasanaeth yn y dyfodol.”

Ymarferydd a fu'n bresennol yn yr Hyfforddiant Dedfrydau Cudd

“Hyfforddiant llawn gwybodaeth – yr un gorau rydw i wedi'i gael ers tro. Byddaf yn teimlo'n fwy cymwys, a bydd gennyf fwy o wybodaeth, os bydd yr angen yn codi. Dylech gyflwyno'r hyfforddiant i bob pennaeth.”

Ymarferydd a fu'n bresennol mewn gweithdy

Trefnu i gael hyfforddiant

Gellir cyflwyno'r hyfforddiant i dimau unigol neu i gynulleidfaoedd aml-asiantaeth. Nid yw'r costau'n cynnwys TAW, lluniaeth, llogi lleoliad na threuliau.

Os hoffech chi **drefnu hyfforddiant**, cysylltwch â ni i drafod.

**Tîm Plant sy'n Dioddef
oherwydd bod ganddynt
Riant yn y Carehar
Barnardo's Cymru**



01639 620771



catherine.davies@barnardos.org.uk